Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Comisiwn Bevan Commission

JBI The Wales Centre For Evidence Based Care
A JBI Centre of Excellence

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

# Gofal integredig i bobl hŷn neu bobl sy'n byw gydag eiddilwch ac amseroedd/rhestrau aros – adolygiad cyflym dulliau cymysg

Mehefin 2025

Judit Csontos, Elizabeth Gillen, Deborah Edwards, Adil Islam, Rhiannon Tudor Edwards, Jacob Davies, Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis

## Cefndir

Mae gofal integredig yn golygu bod gwahanol **dimau iechyd a gofal cymdeithasol a gweinyddol yn cydweithio i gynnig gofal di-dor sydd wedi'i gydlynu i gleifion.**

Y nod yw:

- gwella boddhad cleifion a chanlyniadau iechyd
- cyflymu diagnosis a thriniaeth
- lleihau costau

Fodd bynnag, ychydig o **eglurder sydd o hyd ynghylch effeithiolrwydd** ymyriadau gofal integredig **o ran gwella amseroedd aros yn narpariaeth gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.**

## Y Nod

Gwella ein dealltwriaeth o **effaith** ymyriadau gofal integredig **ar amseroedd aros a rhestrau aros.**

## Sylfaen y Dystiolaeth

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a gyhoeddwyd rhwng 2015 a mis Ionawr 2025.

**61** o astudiaethau wedi'u canfod → **30** Roedd 30 o'r astudiaethau hyn yn sôn am ymyriadau gofal integredig **mewn 2 wasanaeth neu fwy**

→ **23** Roedd 23 yn defnyddio data **meintiol**

→ **7** Roedd 7 yn defnyddio data **ansoddol**

Roedd y **30** astudiaeth wedi ymchwilio i **bobl hŷn (dros 65 oed)** oedd yn byw ag amrywiaeth o gyflyrau gan gynnwys y canlynol:

- toriadau clun neu esgyrn eraill (15)
- anafiadau trawmatig (2)
- anghenion gofal brys neu argyfyngol amrywiol (5)
- cyflyrau iechyd meddwl (2)
- dementia (2)
- clefydau geriatrig cronig cymhleth (1)
- clefydau sy'n gysylltiedig â heneiddio ac anghenion gofal pobl hŷn (2)
- anghenion gofal lliniarol (1)

*Mae cromfachau'n dynodi nifer yr astudiaethau sy'n gysylltiedig â'r pwnc


✔ **Amseroedd aros cleifion mewnol**, (fel yr amser cyn llawdriniaeth), oedd y rhai a soniwyd amdanynt fwyaf (18)

✔ Adroddwyd ar ymyriadau wedi'u hintegreiddio dros **ddau** (16), **tri** (9) a **phedwar** (5) gwasanaeth gwahanol **(gan gynnwys gofal sylfaenol, ysbyty, gofal yn y gymuned neu ofal cymdeithasol)**

Cynhaliwyd astudiaethau yn y canlynol:




Gwledydd Ewrop **(12)** gan gynnwys 2 o'r DU




UDA **(8)**



Canada **(4)**



Awstralia **(3)**



Siapan**(1)**

Mewn sawl gwlad **(2)**

## Prif ganfyddiadau

### Astudiaethau Meintiol
(gan ddefnyddio data rhifiadol ac ystadegau)

**Mae tystiolaeth wan** sy'n deillio o nifer o astudiaethau yn awgrymu y gallai integreiddio ymyriadau gofal **helpu i leihau amseroedd aros** ar gyfer y canlynol:

- cael eich derbyn i'r ysbyty neu i gael llawdriniaeth (ar gyfer toriadau clun ac esgyrn eraill)
- asesiad cyntaf i bennu nodau gofal (ar gyfer anafiadau trawmatig)
- adolygiad gofal geriatrig o adran achosion brys
- gofal sylfaenol i'r sawl sydd ag anghenion brys
- dechrau triniaeth neu apwyntiad i'r sawl sydd â chyflwr iechyd meddwl
- ymchwiliad i anghenion gofal lliniarol

**Roedd yr ymyriadau yn rhai amlochrog** gydag elfennau'n cynnwys y canlynol:

- Timau amlddisgyblaethol (MDT)
- Llwybrau + Protocolau
- Cydlynu gofal

Nodwyd bod y dystiolaeth hon **yn wan** oherwydd:

- eu bod wedi'u cynllunio'n wan
- anghysondebau yn y canfyddiadau

**Mae tystiolaeth gref** o ddwy astudiaeth yn dangos bod **asesiad amlddisgyblaethol** ar gyfer pobl hŷn sy'n dod i adrannau brys yn effeithiol **wrth leihau'r amser a dreulir yno.**

### Astudiaeth Ansoddol
(gan ddefnyddio data disgrifiadol fel testun cyfweliadau neu grwpiau ffocws)

Mae canfyddiadau o astudiaethau yn seiliedig ar **farn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** yn awgrymu y gallai ymyriadau gofal integredig wneud y canlynol:

- cefnogi **asesu a diagnosis cynnar**
- galluogi **staff cartrefi nyrsio i reoli symptomau a chynllunio gofal yn fwy amserol**
- **lleihau amser prosesu** atgyfeiriadau gofal i'r henoed
- helpu **i symleiddio gofal cleifion mewnol**
- **lleihau oedi**

Mae canfyddiadau o un astudiaeth, **sy'n nodi barn cleifion,** yn awgrymu y gallai **Gwasanaeth Osgoi'r Adran Achosion Brys** helpu i leihau amseroedd aros mewn adrannau brys.

## Goblygiadau Ymchwil

Mae **angen astudiaethau o ansawdd uchel** yn y maes hwn, yn enwedig ynghylch effaith gofal integredig ar ofal arferol ac amseroedd aros dewisol.

Mae angen ymchwil hefyd ar **gomisiynu gwasanaethau integredig.**

Mae angen gwaith **ymchwil ansoddol o ansawdd uchel** sy'n archwilio profiadau pobl o amseroedd aros mewn perthynas â gofal integredig, yn enwedig o safbwyntiau pobl hŷn a phobl fregus.

Mae'r adolygiad cyflym llawn, **gan gynnwys ystyriaethau economaidd**, ar gael yma:https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2025.06.04.25328979v1